Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl338

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Rhodd i Glwb Pêl Droed Rhaeadr**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Yn ystod Haf 2023, bu farw'r Arolygydd Gareth Earp, un o swyddogion Heddlu Dyfed-Powys, ar ei ffordd adref o'r gwaith.

Roedd yr Arolygydd yn cadeirio ei glwb pêl droed lleol -Clwb Pêl Droed Rhaeadr – ac roedd ganddo hanes cryf gyda'r clwb â rolau fel chwaraewr a hyfforddwr.

Gyda chefnogaeth ei deulu, mae Clwb Pêl Droed Rhaeadr wedi trefnu twrnamaint pêl droed 6 bob ochr er mwyn talu teyrnged i Gareth. Bydd y twrnamaint yn cael ei chwarae ddydd Sadwrn 29 Mehefin, sef union flwyddyn ers marwolaeth Gareth. Ynghyd â'r twrnamaint pêl droed, bydd y digwyddiad yn cynnwys barbeciw, ocsiwn, adloniant byw a lluniaeth i'r holl fynychwyr fwynhau.

Mae'r Comisiynydd wedi cynnig rhodd i gefnogi'r digwyddiad hwn a thalu teyrnged i swyddog hoffus, uchel ei barch, a wasanaethodd gyda Heddlu Dyfed-Powys ers 21 mlynedd.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod cyfraniad o £500 yn cael ei roi er mwyn cefnogi'r digwyddiad hwn o'r elw a wnaed drwy werthu eiddo y daethpwyd o hyd iddo.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 26/06/24**